

Anabledd Dysgu Cymru

Llais ar y cyd dros anabledd dysgu



**Rydym eisiau i Gymru fod y wlad orau yn
y byd i bobl gydag anabledd i fyw, dysgu
a gweithio ynddi.**

Cynllun Strategol 2019 - 2024



Sut i gadw mewn cysylltiad

Anabledd Dysgu Cymru
41 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG



Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

029 2068 1160

www.ldw.org.uk



@ldwales



learningdisabilitywales

Cwmni cyfyngedig gan warant rhif: 02326324
Rhif elusen cofrestredig: 1062858
Rhif cofrestru TAW: 762455911

Cynnwys

Ein gwerthoedd	4
Ein nodau	5
Ein blaenoriaethau	6
Ffeithiau allweddol	7
Polisi Cymru	8
Ein gwaith nawr	11
Ein rhwydwaith	15
Beth rydym yn ei wneud yn dda	16
Llywio ein gwaith	17
Edrych ymlaen	18
Cerrig milltir i lwyddiant	19
Ein cyllid	22
Strwythur ymddiriedolwyr a staff cyfredol.....	23

Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn seiliedig ar y gred bod pob un ohonom wedi cael ein geni gyda hawliau cyfartal

Rydym yn credu bod gennych fel plentyn, person ifanc neu oedolyn gydag anabledd dysgu yr hawl i:

- Cael eich gwerthfawrogi a'ch parchu
- Cael bywyd ystyrion
- Gallu dysgu, datblygu a chael mynediad i addysg a hyfforddiant ystyrion drwy gydol oes
- Cael eich gweld, eich clywed, eich cynnwys a chael llais
- Bod mewn rheolaeth o'ch bywyd
- Cael cyfeillgarwch, perthnasoedd a bywyd cymdeithasol
- Gwaith
- Bod yn ddinesydd sydd yn cyfrannu.

Ategir y gwerthoedd yma gan Gynhadledd a Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau gydag Anableddau.



Ein Nodau

Ein nodau ydy cefnogi ein gweledigaeth o Gymru yn dod y wlad orau yn y byd i bobl gydag anabledd dysgu i fyw, dysgu a gweithio ynddi

- System addysg gynhwysol y mae pobl gydag anabledd dysgu yn teimlo'n rhan ohoni.
- Gweithlu sydd yn cynnwys pobl gydag anabledd dysgu.
- Cymdeithas sydd yn cynnwys, gwerthfawrogi ac yn parchu pobl gydag anabledd dysgu.
- Deddfau, polisi ac ymarfer sydd yn cael eu cydgynhyrchu gan bobl gydag anabledd dysgu.
- Mae gan bobl gydag anabledd dysgu lais ac yn cyfrannu at y materion sydd yn effeithio arnyn nhw.

Ein Blaenoriaethau

Fe fydd ein 3 blaenoriaeth am y 2 flynedd nesaf yn ein galluogi i weithio tuag at y Gymru rydym eisiau ar gyfer pobl gydag anabledd dysgu

Iechyd a
llesiant

Bod yn iach ac yn hapus

Cyflogaeth

Gallu cyfrannu at fywyd yng Nghymru

Addysg

Tyfu a dysgu mewn Cymru gynhwysol

Fe fyddwn yn ymateb hefyd i faterion eraill allai effeithio ar fywydau pobl gydag anabledd dysgu.

Ffeithiau allweddol

Beth rydym yn ei wybod am bobl gydag anabledd dysgu yng Nghymru

- Mae tua 15,000 o oedolion gydag anabledd dysgu yn wybyddus i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac o bosibl o leiaf 60,000 o bobl eraill gydag anabledd dysgu nad ydy'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod amdany'n nhw.
- Mae pobl gydag anabledd dysgu yn byw yn hirach nag erioed ac mae ganddyn nhw anghenion cefnogi cynyddol.
- Mae dros 100,000 o blant gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan nifer o'r plant yma anabledd dysgu. Mae bron i 5,000 o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig yng Nghymru.
- Mae gan blant a phobl ifanc ddewis mwy cyfyngedig i addysg cynhwysol.
- Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau anstatudol wedi dioddef toriadau sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf.
- Mae rhagor o bobl gydag anabledd dysgu yn byw'n annibynnol.
- Mae pobl gydag anabledd dysgu yn parhau i wynebu stigma sylweddol mewn cymdeithas.
- Mae un rhan o dair o deuluoedd gyda phlentyn anabl yn byw mewn flodi.
- Dim ond 6% o bobl gydag anabledd dysgu yn y DU sydd mewn cyflogaeth.

Polisi Cymru

Gwneud y mwyaf o ddeddfau a fframwaith polisi Cymru

Mae sawl polisi yng Nghymru yn cefnogi sut mae pobl gydag anabledd dysgu yn byw eu bywydau.

Rydym eisiau sicrhau ein bod yn rhan o greu a ffurfio sut mae'r polisiâu yma yn cefnogi pobl gydag anabledd dysgu ac eraill i gael y bywydau gorau, mewn Cymru sydd yn gallu dathlu ei llwyddiant.

Rydym yn cydnabod bod y polisiâu a'r mentrau allweddol dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys:

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Mae'r ddeddf yma yn pwysleisio:

- Llais a rheolaeth – rhoi'r unigolyn yn gyntaf a'u hanghenion yng nghanol eu gofal; rhoi llais iddyn nhw, a rheolaeth dros gyrraedd y canlyniadau sydd yn eu helpu i gyflawni llesiant.
- Atal ac ymyrraeth cynnar – cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned i leihau dwysâd angen difrifol.
- Llesiant – cefnogi pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chefnogaeth.
- Cydgynhyrchu – annog unigolion i gymryd mwy o ran yn nyluniad a darpariaeth gwasanaethau.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r ddeddf yma yn pwysleisio:

- Cymru ffyniannus
- Cymru wydn
- Cymru mwy cyfartal
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru o ddiwylliant a iaith Gymraeg bywiog
- Cymru sydd yn gyfrifol yn fyd-eang

Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) 2018

3 prif amcan y ddeddfwriaeth yma:

- Fframwaith ddeddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn o oedran addysg gorfodol neu iau gydag anghenion dysgu ychwanegol.
- Proses asesu, cynllunio a monitro integredig, cydweithredol sydd yn hwyluso ymyrraeth cynnar, amserol ac effeithiol.
- System deg a thryloyw i ddarparu gwybodaeth a chyngor ac i ddatrys pryderon ac apeliadau.

Anabledd Dysgu – Rhaglen Gwella Bywydau 2018

Canlyniadau'n canolbwyntio ar:

- Blynyddoedd cynnar a phlant
- Tai
- Gofal cymdeithasol
- Iechyd a llesiant
- Sgiliau, addysg a chyflogaeth.

Ffyniant i bawb: cynllun gweithredu economaidd 2017

I bobl yng Nghymru fod yn:


- Ffyniannus a diogel
- Iach ac egniol
- Uchelgeisiol a dysgu
- Unedig a chysylltiedig.

Rhaglen Gwelliant Cymru

Gwasanaeth gwelliant cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru ydy'r Rhaglen Gwelliant Cymru a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ein gwaith
nawr

Mae gennym nifer o brosiectau
a gweithgareddau



Cipolwg ar brosiectau



Mae ein prosiect Bywyd Gwerthfawr yn cyflawni ein gweithgareddau allweddol:

- Cyfathrebu a gwybodaeth
- Hyfforddiant a digwyddiadau
- Cynrychioli
- Arloesi.



Mae'r prosiect Engage to Change yn cefnogi pobl ifanc 16-25 oed gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth ar draws Cymru i leoliadau gwaith cyflogedig sydd yn para 6-12 mis. Mae'r prosiect yn cynnig hyfforddiant swydd 1 i 1 a chefnogaeth cyflogaeth arbenigol i'r person ifanc ac i'r cyflogwr. I gyflawni'r prosiect rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda chonsortiw m yn cynnwys 4 corff arall:

- Agoriad Cyf
- Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Prifysgol Caerdydd
- Cyflogaeth Gyda Chefnogaeth ELITE.



Mae Ffrindiau Gigiau yn mynd i'r afael gydag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ac mae'n gwella llesiant drwy gydweddu pobl gyda a heb anabledd dysgu sydd yn rhannu'r un diddordebau fel eu bod yn gallu mynd i Gigiau a digwyddiadau gyda'i gilydd.



Mae'r Rhwydwaith Gweithio ar y cyd gyda Rhieni yn brosiect partneriaeth i wella cefnogaeth i rieni gydag anabledd dysgu. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol o wasanaethau prif ffrwd a theulu i weithio tuag at weledigaeth gyffredin a dulliau o weithio ar y cyd gyda rhieni gydag anabledd dysgu.



Mae Love Life yn gydweithrediaeth o 7 o gyrfw partner ledled Ewrop. Ei nod ydy galluogi pobl gydag anabledd dysgu i ddod yn hyfforddwr mewn perthnasoedd iach er mwyn darparu hyfforddiant a hyfforddi eraill i ddod yn hyfforddwr ym mhob un o'r 7 gwlad Ewropeaidd.

Senedd Ieuencid Cymru

Mae Senedd Ieuencid Cymru yn cynnwys 60 o aelodau etholedig. Mae 40 wedi cael eu hethol o'u hetholaethau a 20 arall gan gyrff partner. Mae Anabledd Dysgu Cymru yn gorff partner ac fe fydd yn cefnogi 2 o bobl ifanc anabl i gynrychioli eraill fel rhan o'r Senedd Ieuencid.



Mae ein Gwasanaeth Hawdd ei Ddeall wedi bod yn helpu pobl i roi gwybodaeth mewn ffurf hawdd ei ddeall i bobl gydag anabledd dysgu am 17 o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys dogfennau, gwefannau, ymgynghoriadau, polisiâu, canllawiau, posterï, fideos a thafleenni. Rydym hefyd yn helpu eraill i ddatblygu sgiliau hawdd ei ddeall drwy ddarparu ein canllaw am ddim 'Clear and Easy' a chynnig 2 lefel o gyrsiau hyfforddi ar wneud gwybodaeth yn hygyrch.

Llywodraethiant a gweithgareddau craidd

Cefnogir darpariaeth ein prosiectau gan ein gwasanaethau mewnol:

- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Llywodraethiant

Ein rhwydwaith

Mae ein gwaith a'n llwyddiant yn dibynnu ar weithio gydag amrediad eang o bartneriaid ar draws Cymru

Anabledd Dysgu Cymru

Trydydd Sector	Sector Cyhoeddus	Aelodau ac Unigolion	Sector Preifat	Cyllidwyr
Cyrff anabledd dysgu	Llywodraeth Cymru	Aelodau llawn	Darparwyr gofal a chefnogaeth	Cyrff darparu grantiau
Cyrff anabledd eraill	Llywodraeth DU	Aelodau cyswllt	Lleoliadau celf ac adloniant	Llywodraeth leol a chenedlaethol
Darparwyr tai a chefnogaeth	Awdurdodau lleol	Pobl gydag anabledd dysgu	Darparwyr cyfleustodau	Rhoddion
Cyrff rhieni a gofalwyr	Addysg	Gofalwyr teulu	Cwmnïau technoleg	Cwsmeriaid ein gwasanaethau
Cyrff plant a phobl ifanc	Iechyd	Staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr		

Beth rydym yn ei wneud yn dda

Fe fyddwn yn parhau i weithio yn y dulliau canlynol i wneud Cymru yn wlad well i bobl gydag anabledd dysgu

Pobl

Dod â phobl at ei gilydd yn ein Cynhadledd Flynyddol

Hyfforddiant

Cynnal hyfforddiant a digwyddiadau ar ein themâu blaenoriaeth

Gwybodaeth

Rhannu gwybodaeth ar faterion perthnasol a chyfrannu at yr agenda polisi

Hygyrch

Hyrwyddo'r defnydd o wybodaeth hygyrch

Hawdd ei
Ddeall

Creu dogfennau Hawdd ei Ddeall

Partneriaeth

Chwilio am bartneriaid i rannu ein gwybodaeth

Prosiectau

Creu prosiectau newydd a chyffrous

Llywio ein gwaith

Sut y byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn berthnasol i bobl Cymru

Ymgysylltu

Fe fyddwn yn cyhoeddi ein strategaeth ymgysylltu yn cynnwys digwyddiadau ymgynghori, a digwyddiad agored ar gyfer gosod blaenoriaethau.

Aelodaeth

Fe fyddwn yn sicrhau bod ein haelodaeth yn ddeniadol drwy ymgynghori a darganfod beth mae pobl yn ei weld sydd yn ddefnyddiol.

Rhwydwaith

Fe fyddwn yn cynnal rhwydweithiau pwnc ar draws Cymru.

Sgwrs

Fe fyddwn yn cynnal sgysiau rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Wyneb yn wyneb

Fe fydd gennym gysylltiad gyda'n haelodau.

Polisi

Fe fyddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori ar bolisi.

Edrych ymlaen

Sut y byddwn yn datblygu ein gwaith yn y dyfodol

Ymgyrchu

Fe fyddwn yn cynnal 1 ymgyrch fawr bob blwyddyn

Pobl

Fe fyddwn yn cyflogi rhagor o bobl gydag anabledd dysgu.

Amrywiaeth

Fe fyddwn yn cynyddu amrywiaeth ar ein Bwrdd Ymddiriedolwyr

Brand

Fe fyddwn yn ailfrandio.

Cymunedau

Fe fyddwn yn ymestyn allan i ragor o gymunedau yng Nghymru a chael gwell

Newid

Fe fyddwn yn creu rhagor o bartneriaethau ar gyfer newid.

Ffrindiau

Fe fyddwn yn creu rhagor o gyfleoedd Ffrindiau Gigiau ar draws Cymru.

Polisi

Fe fyddwn yn datblygu ein cyfraniad i drafodaeth a datblygiad polisi yng Nghymru.

Adnewyddu

Fe fyddwn yn adolygu ein gwasanaethau hyfforddi, hawdd ei ddeall a chyfathrebu.

Cysylltiadau

Fe fyddwn yn recriwtio rhagor o aelodau ac yn amrywio ein cysylltiadau.

Cerrig milltir i lwyddiant

Sut y bydd llwyddiant yn edrych dros y 5 mlynedd nesaf

Blwyddyn 1

Blwyddyn 3

Blwyddyn 5

Polisi	<ul style="list-style-type: none"> • Creu map ymgyrchu am 3 blynedd 	<ul style="list-style-type: none"> • 2 swyddog polisi yn cynnwys 1 person gydag anabledd dysgu 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgyrch ymwybyddiaeth cyhoeddus ar raddfa fawr
Hyfforddiant a digwyddiadau	<ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso'r gwasanaeth cyfredol 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhannu arfer da drwy ein cynhadledd flynyddol 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhannu arfer da drwy ein cynhadledd flynyddol
Cyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso'r gwasanaeth cyfredol 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflogi aelod o dîm cyfryngau cymdeithasol sydd ag anabledd dysgu • Ailfrandio 	

Blwyddyn 1

Blwyddyn 3

Blwyddyn 5

Ffrindiau Gigiau	<ul style="list-style-type: none">• Sicrhau cyllid 3 blynedd i weithio mewn 6 awdurdod lleol	<ul style="list-style-type: none">• Cael presenoldeb rhanbarthol ar draws Cymru	<ul style="list-style-type: none">• Cynnal rhwydwaith 'Aros i Fyny'n Hwyr' gyda phresenoldeb prosiect Cymru gyfan
Rhwydwaith gweithio ar y cyd gyda rhieni	<ul style="list-style-type: none">• Sicrhau cyllid	<ul style="list-style-type: none">• Creu canllaw ar 'weithio gyda rhieni gydag anabledd dysgu'• Creu swydd gogledd Cymru ar gyfer y rhwydwaith	<ul style="list-style-type: none">• Llywodraeth Cymru naill ai yn mabwysiadu canllaw neu yn creu canllaw i'w ddsbarthu
Senedd leuencid	<ul style="list-style-type: none">• Creu grŵp cyfeirio o bobl ifanc i gefnogi Aelodau Senedd leuencid Cymru	<ul style="list-style-type: none">• Cyfrannu at y ffordd ymlaen.	Sicrhau cynrychiolaeth gan bobl ifanc anabl
Gwasanaeth Hawdd ei Ddeall	<ul style="list-style-type: none">• Ymchwilio i fodelau posibl i gefnogi datblygiad y gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none">• Elw o £25,000	<ul style="list-style-type: none">• Dyletswydd ar gyrf f cyhoeddus i hyfforddi staff sydd yn cynhyrchu gwybodaeth mewn Hawdd ei Ddeall Lefel 1

Blwyddyn 1

Llywodraethiant a gweithgareddau craidd

- Addasu strwythur cyfredol y bwrdd i gynrychioli aelodaeth yn well

Blwyddyn 3


- Cynyddu amrywiaeth ar ein bwrdd
- Adolygu gorbenion craidd
- Creu adnawdd datblygu busnes
- Diweddarau'r Memorandwm a'r Erthyglau i adlewyrchu cyfeiriad y corff yn well

Blwyddyn 5

- Gwirio ansawdd prosesau rheolaeth llywodraethiant

Ein cyllid

Rydym yn gweithio i amrywio ein hincwm i ddod yn fwy cynaliadwy



Strwythur ymddiriedolwyr a staff cyfredol

